

# Ymchwiliad Safonau Iaith

## Ymateb Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

### 1. Cyflwyniad

#### 1.1. Problem Greiddiol yr Ymgynghoriad - diffyg ffocws ar y defnyddiwr

Nid yw'r ddogfen 'ymgynghorol' wedi cael ei lunio ar gyfer y cyhoedd, dyna graidd y broblem gyda hi. Diffyg sy'n amlygu diffyg dealltwriaeth enbyd o ran diben y safonau yn ogystal â chyd-destun yr ymgyrch iaith a arweiniodd at basio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Diben y safonau, i fod, yw creu hawliau clir, cryf i'r cyhoedd i gael gwasanaethau Cymraeg gwell. Yn hynny o beth, mae'r ddogfen hon yn fethiant trychinebus.

Mae esboniad y ddogfen ar dudalen 1 y ddogfen yn dweud y cyfan:

*“Mae'r ddogfen hon wedi'i hanelu at gynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau sir yng Nghymru, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru ...”*

Dim dyna oedd bwriad Mesur y Gymraeg, y bwriad oedd creu hawliau clir i bobl, gyda'r ffocws ar bobl, y defnyddwyr, eu grymuso a rhoi hyder iddynt, yn hytrach na chanolbwyntio ar sefydliadau oedd yn ganolbwynt i'r hen gynlluniau iaith.

Pan benderfynodd y Gweinidog Leighton Andrews wrthod safonau iaith drafft Comisiynydd y Gymraeg, ein pryder ni fel mudiad oedd taw'r gwir reswm y cawson nhw eu gwrthod oedd ei fod am eu gwanhau. [Ar y pryd, dywedodd Leighton Andrews](#) pan wrthododd safonau'r Comisiynydd:

*“Deuthum i'r penderfyniad hwn am sawl rheswm, gan gynnwys fy mhryder fod y model a gynigir gan y Comisiynydd yn **rhy gymhleth** ... Credaf hefyd na fydd safonau arfaethedig y Comisiynydd, nac ychwaith y model a gynigir gan y Comisiynydd ar gyfer gosod safonau, yn cyflawni'r nod polisi sy'n gyffredin i ni sef rhoi hawliau ieithyddol clir i ddinasyddion...”*

Sut allai 134 o safonau fod yn llai cymhleth a chreu hawliau cliriach, o safbwynt y dinesydd, na'r 37 yn ail set o safonau drafft Comisiynydd y Gymraeg? Nid ydynt: maent yn llawer mwy cymhleth ac yn llai clir i'r cyhoedd, ond yn well i sefydliadau, sef y gwrthwyneb i fwriad Mesur y Gymraeg.

#### 1.2 Problemau gyda'r broses

Nid yw'r brif ffordd o gasglu ymatebion wedi cael ei hyrwyddo gan Gomisiynydd y Gymraeg na'r Llywodraeth yn ddigonol nag mewn ffordd hwylus. Credwn fod yr holiadur yn ddiffygiol gan nad yw'n adlewyrchu'r ffaith bod modd ychwanegu ac addasu'r safonau drafft presennol. Er mwyn llenwi'r bwlch anferth a adewir gan y broses ddiffygiol hon, mae rhaid i fudiadau fel ni a Mudiadau Dathlu'r Gymraeg lenwi'r bwlch. Erfyniwn arnoch felly i sicrhau newidiadau yn y broses cyn i'r set nesaf gael ei chyhoeddi yn Mis Medi eleni.

Ymhellach, ar yr olwg gyntaf, nid yw'n gwbl amlwg beth yw union arwyddocad y safonau iaith a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Dim ond wedi i swyddogion y Gymdeithas holi gweision sifil yn Uned y Gymraeg y daeth yn glir y gallai'r safonau gynnig gwasanaethau gwaeth na'r hyn y maen nhw i fod i'w cynnig o dan gynlluniau iaith. Hynny oherwydd bod y safonau yn rhai y bydd modd dewis a dethol rhynddynt.

Mae hynny'n amlygu diffygion y broses: credwn fod rhaid ail-ystyried y broses ar gyfer y set nesaf o safonau. Nid yw'n iawn cyrraedd sefyllfa lle bo'r Llywodraeth yn ogystal â'r Comisiynydd yn gwrthod gwneud sylwadau cyhoeddus am gynnwys y ddogfen.

Ble mae hynny'n gadael y defnyddiwr? Nid oes gobraith iddynt ddeall y broses.

Mae'n adrodd cyfrolau y bu'n rhaid i swyddogion Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ffonio gweision sifil er mwyn deall y ddogfen. Aelodau o fudiad sydd wedi bod yn ymgyrchu yn y maes ers dros 50 mlynedd ac yn ymgyrchu dros Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ers dechrau'r ganrif hon. Mae angen cofio mai pobl ddylai fod yn ganolbwynt i'r broses hon, nid sefydliadau. Mae methiant y Llywodraeth, ac i raddau llai y Comisiynydd, i ddeall hynny wedi arwain at y sefyllfa ddryslud hon.

Ymhellach, mae'r gwendidau hyn yn golygu y bydd rhaid cynnal rhaglen farchnata megis "dyma beth mae'r safonau yn ei olygu i chi" wrth i'r safonau ddod i rym fel bod y cyhoedd yn deall eu 'hawliau' newydd.

## 2. Sylwadau Cyffredinol

### 2.1 Torri Addewidion y Strategaeth Iaith ac Addewid y Prif Weinidog

Fel y dywedwn uchod, ni chredwn y bydd y safonau drafft yn creu hawliau clir i bobl nac yn sicrhau gwasanaethau Cymraeg gwell a chyson.

Mae'r safonau drafft yn torri dau addewid clir a wnaed gan Lywodraeth Cymru sef: peidio â llunio safonau a fyddai'n cynnig llai na chynlluniau iaith; a sicrhau amodau priodol o ran defnydd y Gymraeg wrth i grantiau a chontractau gael eu dyfarnu i gwmnïau'r sector preifat gan gyrrff cyhoeddus.

Dyma'r ddau addewid clir a dorrir gan y safonau iaith drafft - mae Strategaeth Iaith y Llywodraeth yn addo'n gwbl glir y bydd yn:

"34. **Gwneud safonau** a fydd yn galluogi'r Comisiynydd i osod dyletswyddau ar gwmnïau'r sector preifat sy'n rhan o gwmpas Mesur y Gymraeg, gan gynnwys cwmnïau telathrebu, gweithredwyr bysiau a threnau, a chwmnïau cyfleustodau – **a sicrhau bod amodau priodol o ran y defnydd o'r Gymraeg yn cael eu cynnwys wrth i grantiau a chontractau gael eu dyfarnu i gwmnïau'r sector preifat gan gyrrff cyhoeddus.**"<sup>1</sup>

<sup>1</sup> <http://cymru.gov.uk/docs/dcells/publications/122902wls201217cy.pdf>

Mae'n addewid clir felly i sicrhau amodau o ran y Gymraeg yn nhermau grantiau a chontractau (nid ystyried effaith grantiau ar y Gymraeg yn unig). Nid yw'r safonau iaith drafft yn cadw at yr ymrwymiad clir hwnnw.

Bu'r Prif Weinidog yn glir hefyd am y ffaith na ddylai'r safonau iaith newydd gynnig llai na'r hyn a gynnigir gan gynlluniau iaith. Mewn llythyr atom, dywedodd:

*“Rwyf hefyd yn cytuno y dylai'r safonau sy'n cael eu gosod ar gyrrff cyhoeddus, fel isafswm, sicrhau bod y lefel o wasanaethau Cymraeg sy'n cael eu cynnig gan gyrrff ar hyn o bryd yn parhau.”*

Fodd bynnag, ceir enghreifftiau lu yn y safonau o ddyletswyddau sy'n is na'r hyn mae cyrrff wedi addo ei ddarparu o dan eu cynlluniau iaith presennol - o linellau ffôn i wefannau.

Ymhellach, cafwyd awgrym clir gan Lesley Griffiths, y Gweinidog Llywodraeth Lleol, wrth drafod y Mesur Llywodraeth Leol y byddai'r safonau iaith yn gosod dyletswydd i osod amodau er mwyn sicrhau bod cyfran deg o benodiadau cyhoeddus yn cael eu hysbysebu fel rhai lle byddai'r Gymraeg yn hanfodol:

*“Wrth ddirymu rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ... mae'r ddarpariaeth bresennol y dylai un o'r Comisiynwyr allu siarad Cymraeg yn cael ei ddileu ac nid yw'n cael ei ailadrodd yn y Bil... Mae'r gofyniad y dylai o leiaf un aelod allu siarad Cymraeg yn adlewyrchu'r cyfnod cyn i'r Gymraeg gael ei hamddiffyn yn sylweddol trwy ddeddfwriaeth, a chyn bod cyfleusterau cyfieithu ar gael yn rhwydd, er enghraifft. Yn lle hynny, dylid penodi aelodau'r Comisiwn yn unol â chynllun iaith Llywodraeth Cymru (y cynllun iaith), o ran penodiadau cyhoeddus. Mae adran 7.3 o'r cynllun iaith yn ymdrin â'r angen i benodi aelodau Cymraeg eu hiaith, a'r angen i fyrddau cyrrff cyhoeddus ddeall y materion sy'n effeithio ar y Gymraeg. Wrth benodi aelodau, bydd unrhyw safonau iaith Gymraeg perthnasol a orfodir ar Weinidogion Cymru yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, hefyd yn cael eu hystyried.”<sup>2</sup>*

Ar sawl achlysur, gadawodd y Gweinidog yr argraff nad oedd angen gwelliant i'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) Cymru er mwyn sicrhau siaradwr Cymraeg ar y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru oherwydd y byddai'r safonau iaith yn sicrhau bod siaradwr neu siaradwyr Cymraeg yn cael eu penodi. Fodd bynnag, nid oes yr un safon yn y ddogfen a fyddai'n gwneud penodi siaradwr Cymraeg yn hanfodol.

## **2.2 Diffyg cydlynedd gydag adroddiadau eraill a gomisiynwyd gan y Llywodraeth**

### **2.2.1 Adroddiad Cymunedau Cymraeg**

Mae'r adroddiad Cymunedau Cymraeg a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ôl ym mis Rhagfyr 2013 yn argymhell:

---

<sup>2</sup><http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs/pri-ld9112-em-r-e.pdf?langoption=3&ttl=PRI-LD9112-EM-R%20-%20Bil%20Llywodraeth%20Leol%20%28Democratiaeth%29%20%28Cymru%29%20-%20Memorandwm%20Esboniadol%20Diwygiedig>

*“Cytuno ar dargedau i ehangu gweithlu dwyieithog a gweithredu mewnol dwyieithog gydag asiantaethau perthnasol o fewn i gwmpas Safonau'r Iaith Gymraeg.”<sup>3</sup>*

*“Llywodraeth Cymru ac asiantaethau perthnasol i bennu targedau recriwtio a datblygu gweithlu i gynyddu'n ystyrlon nifer y gweithwyr dwyieithog”*

Dyw'r safonau ddim yn cynnig dim un dull i sicrhau hynny. Ydy'r Llywodraeth wedi gwrthod yr argymhelliad hwnnw yn barod felly? A wnaeth rhywun ystyried yr argymhelliad hwnnw wrth lunio'r safonau? Neu ydy'r Llywodraeth wedi anghofio am yr adroddiad?

Fel dywedodd aelod o gabinet Gwynedd wrthom - does dim byd yn y safonau a fydd yn diogelu polisi iaith y cyngor hwnnw nac yn symud rhagor o gyrff at ei bolisi. Pam?

Ymhellach, mae gweithgor trawsbleidiol Cyngor Sir Gâr a sefydlwyd yn sgil canlyniadau'r Cyfrifiad wedi cytuno i osod gweinyddiaeth fewnol fel nod:

*“NOD: I gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gweithle a dwyieithogi ymhellach gweinyddiaeth fewnol y Cyngor **gyda'r nod o weinyddu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg gydag amser**”<sup>4</sup>*

Eto, does dim byd yn y safonau sy'n sicrhau llwybr i gefnogi a sicrhau bod y Cyngor yn cyrraedd ei nod. Mae hynny'n fethiant difrifol. Rydym yn argymhell bod angen ychwanegu safonau a fyddai'n gwneud y Gymraeg yn sgil hanfodol i holl swyddi'r corff a safon is a fyddai'n ei gwneud yn hanfodol i'r holl swyddi rheng flaen.

## **2.2.2 Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd**

Mae adroddiad am y cysylltiad rhwng yr economi a'r iaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn argymhell:

*“... y dylai fod yn ofynnol i'r rheini sy'n tendro ar gyfer contractau yn y sector cyhoeddus ddangos eu bod yn gallu darparu gwasanaeth yn ddwyieithog, yn enwedig os yw'n cael ei ddarparu i'r cyhoedd.”<sup>5</sup>*

Mae'r argymhelliad uchod yn groes i gynnwys safonau iaith drafft y Llywodraeth, sydd, yn wahanol i ddrafftiau Comisiynydd y Gymraeg, yn osgoi cynnwys gofyniad i osod amodau ar gcontractau gyda'r drydedd sector.

Â'r adroddiad ymlaen i argymhell:

*“... y dylai fod yn ofynnol i fusnesau sy'n cael grant gan Lywodraeth Cymru ddangos eu bod yn gallu darparu gwasanaeth yn ddwyieithog. Dylai unrhyw arwyddion neu ddeunyddiau hysbysebu sy'n gysylltiedig â phrosiect sy'n derbyn cymorth grant fod yn ddwyieithog.”*

<sup>3</sup> <http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/131204-communities-where-welsh-is-the-main-language-report-cy.pdf>

<sup>4</sup> <http://online.carmarthenshire.gov.uk/agendas/cym/BWGW20140331/REP04.HTM>

<sup>5</sup> <http://wales.gov.uk/docs/det/publications/140130wledcy.pdf>

Eto, mae'r geiriad hwn yn gryfach ac yn fwy meintiol ac ystyrion na geiriad y safonau llunio polisi sydd ond yn sôn am "asesu" effaith grantiau ar y Gymraeg fel yr amlinellir yn safonau iaith drafft 92, 93 a 94. Yn sicr, mae angen geiriad llawer mwy pendant ac ystyrion na'r hyn a gynigir yn y safonau iaith drafft presennol, gan ychwanegu safonau at yr adran "Safonau arfaethedig ar gyfer dyfarnu grantiau", sef safonau 66-69.

### **2.3 Cynnig Rhagweithiol**

Mae problem gyffredinol bod y safonau yn gofyn i bobl nodi eu bod nhw am dderbyn gwasanaeth yn Gymraeg cyn bod gyda nhw hawl i dderbyn gwasanaeth Cymraeg. Mae safonau 97-100 yn enghreifftiau da o'r gwendidau hyn.

Pa weithiwr fyddai'n mynd ati i optio i mewn i dderbyn y prosesau hyn yn Gymraeg, yn enwedig proses ddisgylbu? Oni ddylai fod yn ddiodyn?

Ymhellach, mae safonau 27 i 29 hefyd yn rhoi'r baich ar y person sy'n gofyn am gyfarfod i ddatgan eu bod nhw am i'r cyfarfod hwnnw gael ei gynnal yn Gymraeg. Eto, mae hynny'n anfantais fawr, ac yn mynd i olygu mai dim ond ychydig o bobl sy'n ddigon styfnig i fynnu cyfarfod yn Gymraeg fydd yn gwneud hynny. Mae angen dileu'r gofyniad felly i bobl orfod nodi eu bod nhw'n dymuno cyfarfod personol yn Gymraeg ymlaen llaw.

Yn wir, mae angen cael gwared ar y cysyniad bod rhaid nodi ymlaen llaw eich dewis i ddefnyddio'r Gymraeg er mwyn cael mynediad at y gwasanaeth.

Er bod ymgais i hyrwyddo bodolaeth y safonau a'r gwasanaeth yn "*Safonau arfaethedig ar gyfer codi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg sydd ar gael*", ni allan nhw wneud yn iawn am (i) y ffaith na fydd neb yn deall safonau sydd mor hirfaith a manwl â'r rhai sydd yn y ddogfen hon a (ii) y nifer o safonau sy'n gorfodi rhywun i optio mewn i wasanaeth Cymraeg. Yn yr adran nesaf, rydym yn argymhell nifer o opsiynau er mwyn ceisio tacio'r problemau hyn.

Yn sicr, dylai fod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i redeg ymgyrch farchnata am fodolaeth y safonau fel bod pobl yn dechrau cael hyder i fynnu'r hawliau clir a chyson newydd a ddylai ddeillio o'r safonau iaith.

Gellid gwneud safon rhif 8 yn rhywbeth cyffredinol yn lle safon benodol sydd ond yn gymwys i ohebiaeth.

### **2.4 Diffyg Hawliau Clir, Dealladwy i'r cyhoedd**

Mae gormod o fân safonau sy'n rhy benodol. Mae angen llai o safonau, sy'n fwy eang na'r safonau presennol ac yn gliriach ynglŷn â'r hyn y bydd y cyhoedd a gweithwyr yn gallu ei ddisgwyl.

Mae'n cymryd degau o safonau iaith drafft y Llywodraeth i amlinellu dim ond un safon yn fersiwn y Comisiynydd. Drwy ddilyn trefn bresennol y Llywodraeth, gallai nifer o bethau amlwg gael eu hanghofio, yn anfwriadol, megis unrhyw ddull newydd o gyfathrebu nad yw'n bodoli ar hyn o bryd.

Mae'r broblem o fethu gwarchod y safonau rhag mynd allan o ddyddiad a methu dal lan â newidiadau technoleg yn cael ei hamlygu gan safon 52 ynghylch apiau electroneg. Mae'n safon rydym yn ei chroesawu, ond mae'n gyfyng. Oni ddylai fod safon sy'n golygu bod unrhyw declyn electroneg neu ryngwyneb electroneg a gyhoeddir neu reolir gan y sefydliad fod ar gael yn Gymraeg?

Ymhellach, mae'r Llywodraeth wedi creu problem enfawr o safbwynt creu hawliau clir y gallai'r cyhoedd eu deall. Nid oes gobaith y bydd neb yn cofio'r 134 o safonau yn y fersiwn yma. O'r hyn a welwn ni, mae pedwar opsiwn er mwyn ceisio arbed y sefyllfa fel bod y cyhoedd yn datblygu hyder o ran defnyddio'r iaith oherwydd bod sicrwydd bod gwasanaethau yn cael eu cynnig yn ddi-ofyn yn Gymraeg:

(i) Cwtogi ar nifer y safonau i rai mwy cyffredinol, ehangach a haws eu deall;

(ii) Cwtogi ar y nifer o "safonau cyflenwi gwasanaethau" yn unig fel eu bod nhw'n fwy cyffredinol a dealladwy i'r cyhoedd;

(iii) Ychwanegu safon sy'n gorfodi'r Llywodraeth i ddatgan hawliau cyffredinol sylfaenol cenedlaethol y mae'n rhaid i bob corff a chwmni sy'n daronestynedig i'r safonau eu sicrhau, megis:

"(a) yr hawl i gyfathrebu'n Gymraeg - mewn cyfarfod wyneb yn wyneb, yn electroneg, yn ysgrifenedig, dros y ffôn neu unrhyw ddull arall.

(b) yr hawl i weithio'n Gymraeg - gan gynnwys yr hawl i ddysgu Cymraeg yn y gweithle ...

(c) yr hawl i chwarae yn Gymraeg ...

(ch) yr hawl i wybodaeth yn Gymraeg ... "

(iv) Ychwanegu safon sy'n gorfodi'r sefydliadau i ddatgan hawliau clir, syml, dealladwy, cyffredinol sylfaenol cenedlaethol y mae'n rhaid iddyn nhw hysbysebu eu bod yn cadw atynt megis y rhai a restrir uchod;

Mae manteision amlwg o ddilyn opsiynau o'r fath, yn ogystal â rhesymeg amlwg, sef bod hawliau cyffredinol yn eistedd tu ôl i'r safonau drafft manwl yma, ac mae angen i bobl a sefydliadau ddeall bod yr "hawl i gyfathrebu" â chorff yn bodoli er mwyn newid yr hinsawdd ieithyddol.

Ymhellach, dylai fod rhaglen farchnata rymus gan y Llywodraeth neu'r Comisiynydd sy'n esbonio - mewn ffordd syml a dealladwy - y safonau a'r newid yn y gyfraith i bobl ar lawr gwlad.

#### **2.4.1 Cysondeb gyda setiau eraill o safonau**

Mae creu hawliau clir ac eang sy'n hawdd eu cofio a'u deall yn bwysig iawn yng nghydstun y setiau nesaf o safonau. Os dylunir y patrwm o roi eglurder am rai hawliau cyffredinol fel y cynigiwn uchod, mae'n rhaid sicrhau bod cysondeb ar gyfer y setiau nesaf o safonau. Mae hynny'n hanfodol os yw'r cyhoedd yn mynd i elwa i'r eithaf o'r safonau - gallai

hawliau cyffredinol a syml, wedi eu marchnata'n eang, rymuso a rhoi hyder i bobl o bob gallu ieithyddol i ddefnyddio llawer mwy o'u Cymraeg.

## 2.5 Gwannach na chynlluniau iaith

Mae nifer o'r safonau - megis y rhai am wefannau, cyhoeddiadau, ffurflenni, gwasanaethau ffôn, derbyn ymwelwyr, a chyfarfodydd - yn mynd yn groes i addewid y Prif Weinidog na fyddai safonau yn cynnig llai na chynlluniau iaith.

Yng nghyd-destun cynlluniau iaith presennol y cyrff hyn, a'r ffaith eu bod wedi bod yn gweithio "tuag at drin y ddwy iaith yn gyfartal" ers blynyddoedd maith, condemniwn yn llwyr y ffaith bod y Llywodraeth yn cynnig safonau a fyddai'n crisialu mewn statud wasanaeth eilradd yn Gymraeg o gymharu â'r Saesneg.

Er enghraifft, nid yw safonau 20, 21, 43, 44, 46, 47, 60, 61, 62 yn dderbyniol o gwbl, gan eu bod yn golygu y gallai corff gynnig gwasanaethau eilradd yn y Gymraeg. Dylai fod safon ychwanegol yn atal corff rhag cynnig llai o wasanaethau, neu wasanaethau gwaeth eu hansawdd, na'r hyn a gynigir o dan gynlluniau iaith presennol.

Efallai y dylen ni longyfarch lobiwyr ar ran awdurdodau lleol am lwyddo i sicrhau bod y safonau mor wan, fel eu bod yn is na'r gwasanaeth a gynigir gan rai cwmnïau sector breifat ar hyn o bryd.

Cymerwch wasanaethau ffôn er enghraifft. Mae'n bosibl y gallai awdurdod lleol gydymffurfio â'r safonau drwy ddim ond cynnig gwasanaeth ffôn rhai oriau'r dydd, rhywbeth nad yw'r un cynllun iaith yn ei ganiatáu. Hynny oherwydd bod y safonau yn cynnig dewis **rhwng** y safonau canlynol:

*"[19] Rhaid delio yn Gymraeg â galwadau i linellau cymorth a chanolfannau galwadau pan fo'r gwasanaeth ar agor.*

*[20] Rhaid i'r sefydliad lunio a gweithredu cynllun sy'n amlinellu sut y bydd llinellau cymorth a chanolfannau galwadau yn darparu gwasanaeth Cymraeg.*

*[21] Rhaid i linellau cymorth a chanolfannau galwadau sicrhau mai'r neges gyntaf y bydd personau yn ei chlywed pan fyddant yn cysylltu â'r llinell gymorth neu'r ganolfan alwadau yw neges Gymraeg yn esbonio beth yw oriau'r gwasanaeth Cymraeg."*

Gallai cyngor ddadlau gyda'r Comisiynydd o hyn ymlaen, felly, mai'r dewis rhesymol fyddai iddynt gynnig gwasanaeth ffôn fel y'i nodir yn safon 21. Gallai hynny olygu mai un bore'r wythnos, er enghraifft, fyddai oriau'r gwasanaeth Cymraeg. Nid oes yr un cynllun iaith yn caniatáu hynny, ac mae hyn yn codi'r cwestiwn a yw'r safonau yn gyson ag egwyddorion sylfaenol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gan gynnwys statws swyddogol y Gymraeg.

Ymhellach, awgrymwyd i ni dros y ffôn gan swyddog o'r Llywodraeth y gallai corff weithio tuag at safon 19 dros amser. Wedi dros 20 mlynedd o gynlluniau iaith yn mynnu bod cynghorau yn ymdrin â'r ddwy iaith yn gyfartal, byddai caniatáu i sefydliadau gynnig unrhyw beth llai na safon 19 (fel y mae safonau 20 a 21 yn eu hawgrymu) yn gwbl annerbyniol.

Ymhellach, mae problemau tebyg gyda'r safonau yn ymwneud â gwasanaethau ar-lein a gwefannau. Eto, mae'r safonau yn cynnig dewis **rhwng** y safonau canlynol:

*"[50] Rhaid i bob tudalen we fod ar gael yn Gymraeg, a rhaid peidio â thrin testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran ffont, fformat, lliw, maint, eglurder ac amlygrwydd.*

*[51] Rhaid i bob tudalen we newydd fod ar gael yn Gymraeg, a rhaid peidio â thrin testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran ffont, fformat, lliw, maint, eglurder ac amlygrwydd."*

I'n hymgyrchwyr yn Nhorfaen a Chasnewydd bydd hyn yn newyddion drwg iawn. Llwyddodd ein haelodau lleol i gyflawni mwy, o ran gwefannau a gwasanaethau arlein, na'r hyn a gynigir gan y safonau. Eto, mae'n glir bod ewyllys pobl yn gryfach nag ewyllys ein gwleidyddion. Cyngor Casnewydd yw'r unig gyngor sir yn y wlad heb wefan ddwyieithog; gallan nhw nawr symud yn ôl at addo y bydd gwefan gwbl ddwyieithog ar gael "yn fuan" o dan y safonau hyn. Mae'n siwr y bydd y Prif Weithredwr yn dathlu'r safonau'n wresog.

Rhaid cofio bod awdurdodau lleol wedi ymrwymo i ddarparu gwefannau cwbl ddwyieithog ers blynyddoedd, ond bod nifer ohonynt wedi llusgo eu traed, ac yn dal i geisio osgoi'r gofyniad sylfaenol hwn. Nawr mae'r safonau iaith yn cynnig cyfle i sicrhau bod yr egwyddor "ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg", yn cael ei throsglwyddo i'r byd ar-lein yn llawn yn hytrach na'r arferion cwbl anghyson presennol.

Credwn fod y safonau ynghylch ffylenni (46 - 49) a chyhoeddiadau (43 - 45) yn is o lawer na'r hyn a ddisgwylir gan gynlluniau iaith, yn enwedig safonau 44 a 47:

*"Os nad yw'r cyhoeddiad yn y rhestr uchod, rhaid i'r sefydliad ddilyn y meini prawf canlynol wrth asesu'r angen am fersiwn Gymraeg o'r cyhoeddiad.*

- *A yw'r pwnc yn golygu bod cyhoeddiad Cymraeg yn angenrheidiol?*
- *A yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn golygu bod cyhoeddiad Cymraeg yn angenrheidiol?"*

Mae'r safonau hyn yn gam yn ôl ar Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, sy'n dweud bod rhaid cyhoeddi unrhyw ddeunydd a anelir at y cyhoedd yn ddwyieithog.

Dylai popeth a gyhoeddir gan gorff cyhoeddus fod ar gael yn ein hiaith swyddogol. Er enghraifft, pam eithrio un o'r prif fathau o ddogfennaeth mae cyrff yn gofyn i bobl ymateb iddyn nhw, sef dogfennau ymgynghori?

Ymhellach, pam nad oes rhagdybiaeth o blaid y Gymraeg yn y safonau hyn? Credwn fod eu geiriad presennol yn groes i egwyddorion y Mesur y Gymraeg, gan eu bod yn rhagdybio na fydd dogfennau yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg oni fodlonir lefel benodol o alw. Dylai fod disgwyliad fod popeth yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg.

Gweler ein sylwadau am yr holl safonau'n fwy manwl yn y tabl yn adran 3 o'r ddogfen hon.

### **2.5.1 Diffyg sôn am gyhoeddi yn Gymraeg ddim hwyrach na'r fersiwn Saesneg**



Gwelir nifer o enghreifftiau yn y safonau iaith megis tudalennau gwe, cyhoeddiadau, lle nad oes sôn am sicrhau nad yw amser cyhoeddi yn hwyrach yn Gymraeg na'r Saesneg. Prin yw'r bobl a fyddai'n fodlon yn aros mwy. Ar hyn o bryd, mae nifer o gynghorau yn cyhoeddi dogfennau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus a'u pwyllgorau yn Saesneg yn gyntaf, heb gyhoeddi yn Gymraeg tan ddyddiad y cyfarfod mewn rhai achosion, gan orfodi pobl felly i ddarllen y ddogfennaeth Saesneg. Mae sicrhau darpariaeth gwasanaethau a chyhoeddiadau yn Gymraeg nad yw'n hwyrach na'r Saesneg, yn hynod o bwysig er mwyn sicrhau bod defnydd o'r iaith yn cynyddu.

## **2.6 Gwersi nofio yn Gymraeg i bob blentyn yn y wlad**

Rydym yn croesawu'r ffaith bod rhyw fath o gydnabyddiaeth o'r angen i sicrhau'r 'hawl i chwarae a dysgu' yn Gymraeg yn safonau 79-81.

Fodd bynnag, credwn y dylai fod yn hawl i bob unigolyn yng Nghymru dderbyn cyrsiau a hyfforddiant, fel gwersi nofio, yn Gymraeg yn hytrach nag amrywio yn dibynnu ble maen nhw'n byw - loteri cod post.

Does dim un corff o dan y set gyntaf o safonau na allai gyflawni, fan lleiaf, safon 80, yn ogystal â gweithio at safon 79 dros gyfnod penodol o amser.

Dylai'r safonau yma hefyd sôn am 'ddarparu' yn hytrach na dim ond 'cynnig' cyrsiau a hyfforddiant yn Gymraeg. Fel arall, bydd y sefyllfa yn parhau lle mae popeth yn cael ei ddarparu yn Saesneg yn ddiofyn gydag ychydig iawn o bobl yn dewis brwydro dros ddarpariaeth Gymraeg.

## **2.7 Beth am wasanaethau sy'n cael eu contractio allan?**

Nid oes yr un safon a fyddai'n sicrhau bod gwasanaethau sy'n cael eu contractio allan - tua thraean o wariant cyhoeddus - yn cael eu darparu yn Gymraeg, sy'n wendid mawr.

Fel y nodir uchod, mae'r diffyg hwn yn gwbl groes i'r ymrwymiad yn Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru.

Mae'r dyfyniad hwn mewn adroddiad gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn tanlinellu pwysigrwydd y maes hwn:

*"Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn prynu nwyddau a gwasanaethau sydd yn werth tua £4 - 5 biliwn yn flynyddol; tua 30% o gyfanswm yr holl wariant cyhoeddus. Mae dyfarnu a chyflawni contractau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau felly yn allweddol i'r modd y mae'r sector cyhoeddus yn gweithredu a chanfyddiad pobl ohono."<sup>6</sup>*

---

<sup>6</sup><http://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20120330014048/http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/20110511%20GC%20PDF%20Electronig%20Adroddiad%20Caffael%20%28Terfynol%29.pdf>

Nodwn fod safonau llunio polisi yn awgrymu mewn rhyw ffordd y bydd y Gymraeg yn cael ei hystyried wrth ddyfarnu grantiau, ond nid yw hynny'n gyfystyr â gosod amod y bydd yn rhaid i drydydd parti sy'n derbyn grant gydymffurfio â'r safonau.

Nid oes sôn am osod amod ar gontractau trydydd parti o gwbl. Credwn ei bod yn gwbl hanfodol bod safon sy'n sicrhau y bydd cyrff yn gorfod gosod amodau iaith mewn contractau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau. Fel arall, ni fydd yr hawliau yn gyson ar draws gwahanol lefelau o ddarpariaeth, ac felly bydd disgwyliadau pobl a pharodrwydd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn disgyn. Mae'r ffaith bod safonau o'r fath yn fersiwn y Comisiynydd yn awgrymu bod angen cyfreithiol am safon o'r fath.

## **2.8 Cyrff yn gweinyddu'n fewnol yn Gymraeg:**

Fel nodwyd uchod, nid oes safonau haen uwch a fyddai'n sicrhau bod rhagor o gyrff yn symud at weinyddiaeth fewnol Gymraeg yn debyg i'r hyn sydd gan Gyngor Gwynedd. Mae hyn yn hanfodol os yw'r Gymraeg i fod yn iaith y gweithle yn y dyfodol.

Nodwn ymhellach fod cynghorau Sir Gâr a Cheredigion wedi ymrwymo i weithio tuag at weinyddu'n fewnol yn Gymraeg yn ddiweddar. Mae'n amlwg bod y cyrff hyn yn chwilio am gefnogaeth strwythuredig, gadarn a chlir er mwyn cyflawni eu nod polisi newydd. Gresynwn yn fawr felly at y diffyg mawr yn y safonau drafft yn hyn o beth. Mae'n gadael y cyrff hynny heb arweiniad a chefnogaeth i gyflawni polisi a fyddai'n gwneud lles mawr i'r iaith mewn ardaloedd y gwelwyd cwmp mawr yn nifer ei siaradwyr yn y Cyfrifiad diwethaf.

Mae nifer o ffyrdd y gallai'r safonau sicrhau bod cyrff yn gweinyddu, sef gweithredu, yn fewnol yn Gymraeg. Ond nid yw'r safonau drafft hyn yn cynnwys yr un ohonynt. Er enghraifft, gellid symud fesul adran at weithredu'n fewnol yn Gymraeg yn Llywodraeth Cymru - symudiad yr oedd Derek Jones, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, yn gefnogol iawn iddo mewn cyfarfod gyda ni ar 11 Mehefin 2013 (Gweler copi o'n llythyr ato yn Atodiad 1). Yn wir, ar wahanol adegau mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio symud at gyfundrefnau o'r math ond heb y gefnogaeth statudol glir i gefnogi'r gwaith.

Argymhellwn fod safon ychwanegol a fydd yn golygu bod rhai cyrff yn hysbysebu eu holl swyddi fel rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, a safon haen is a fyddai'n golygu hysbysebu pob swydd rheng flaen, neu ofal cwsmer, fel rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol. Gellid hefyd ystyried gofyniadau sylfaenol o ran TGAU Gymraeg er mwyn cael unrhyw swydd. Yn hynny o beth, mae'n werth ystyried polisiâu Heddlu Gogledd Cymru.

## **2.9 Hawliau i weithio yn Gymraeg:**

Rydym yn croesawu'r ffaith y bydd rhagor o ddogfennau a chyfweliadau ar gael yn Gymraeg i weithwyr, ond dyw hynny ddim yn agos at fynd yn ddigon pell. Ymhellach, mae perygl na fydd gweithwyr yn fodlon tynnu sylw atynt eu hunain drwy fynnu eu hawliau, felly mae'n hollbwysig bod rhywbeth yn y safonau a fyddai'n sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cael eu cynnig yn rhagweithiol ac yn ddiofyn. Hefyd, rydym yn credu y dylai fod hawl cyffredinol gan weithwyr i weithio o ddydd-i-ddydd drwy gyfrwng y Gymraeg.

## **2.10 Beth am effaith penderfyniadau ariannol a deddfwriaeth ar y Gymraeg?**

Mae'n bwysig bod sgôp y safonau llunio polisi yn ymestyn i'r holl benderfyniadau ariannol, cynllunio a deddfwriaeth arfaethedig, ac nid yn cael eu cyfyngu i benderfyniadau polisi a grantiau yn unig.

Yn ein gwaith wythnosol ledled Cymru gwelwn ddiffyg mawr mewn nifer o benderfyniadau ariannol, cynllunio a deddfwriaethol - nifer ohonynt yn anfwriadol - y gellid yn hawdd eu hosgoi pe bai gorfodaeth i ystyried y Gymraeg wrth gymryd y penderfyniadau hynny.

## **2.11 Pwyntiau Cyffredinol Eraill**

### **2.11.1 Beth yw diben safon sy'n gofyn am strategaeth neu gynllun arall?**

Mae nifer o enghreifftiau o safon sy'n creu dyletswydd i lunio cynllun neu strategaeth. Yn wir, ymddengys yn nifer o fannau, megis safonau 12,14, 20, 101 a 105, bod y safonau hynny yn ymgais i esgus bod darpariaeth yn y maes, lle, mewn gwirionedd, na fydd darpariaeth. Nid yw safonau o'r fath yn llesol i'r unigolyn, sydd am gael hawliau clir a chadarn, nag ychwaith i'r sefydliad sydd eisiau deall yr hyn y dylen nhw ei wneud.

### **2.11.2 Gorfodaeth i optio mewn i wasanaethau Cymraeg**

Mae safonau niferus lle mae baich ar yr unigolyn i ddatgan neu i sicrhau bod y sefydliad wedi nodi eu bod nhw am ddelio â nhw yn Gymraeg.

Credwn fod nifer o'r safonau yn gwneud gwasanaeth Cymraeg yn dibynnol ar y ffaith bod y defnyddiwr "wedi nodi" ei fod am dderbyn gwasanaeth yn Gymraeg. Cymerwch safonau 27, 28 a 29 fel enghraifft, safonau sy'n datgan:

"Pan fo person **wedi nodi ei fod** yn dymuno .."

Mae safon o'r fath yn golygu bod baich ar yr unigolyn i ddatgan ei fod am dderbyn gwasanaeth yn Gymraeg. Mae'r safon yn cymryd yn ganiatol mai'r Saesneg yw iaith ddi-ofyn y ddarpariaeth, a bod y Gymraeg yn ychwaneg at hynny. Mae hynny'n gwbl annerbyniol.

## **2.12 - Safonau lefel uchaf ar yr holl gyrff yn y set gyntaf**

Lle mae'r safonau drafft yn cynnig mwy nag un safon berthnasol i ddewis ohonynt, rydym yn credu y dylai'r holl gyrff yn y set gyntaf - Cynghorau Sir, Parciau Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru - orfod gweithredu'r safonau sy'n rhoi'r disgwyliad uchaf ymhob achos, gan nad oes yr un corff yn y set gyntaf a fyddai'n methu â chydymffurfio â'r rhain.

Nid oes rheswm na ddylai pob corff yn y set hon orfod cydymffurfio â'r safonau ar y lefel uchaf yn y ddogfen. Gan eu bod mor sylfaenol fel hawliau iaith, dylai pob person, lle bynnag y mae'n byw, gael derbyn yr hawliau sylfaenol hyn.

Credwn y dylid rhoi ystyriaeth i gynnwys cynlluniau iaith presennol y sefydliadau hyn. Ceir nifer o addewidion gan y gyrff hyn ers blynedoedd, os nad degawdau, nas gwirededwyd erioed. Yng nghyd-destun cynlluniau iaith presennol y gyrff hyn, a'r ffaith eu bod wedi bod yn

gweithio “tuag at drin y ddwy iaith yn gyfartal” ers blynyddoedd maith, mae’r lefel uchaf o ddarpariaeth a amlinellir yn y safonau drafft hyn yn gwbl resymol.

### 3. Sylwadau Penodol

Yn y tabl isod amlinellir sylwadau penodol ynghlych y safonau a ddrafftiwyd gan Lywodraeth Cymru.

Safon iaith y Llywodraeth	Sylwadau
Safonau Gohebiaeth (1 - 8)	<p>Mae gormod o safonau penodol iawn yn ymwneud â gohebiaeth sydd mewn perygl o beri dryswch ym meddwl y cyhoedd.</p> <p>Er bod mantais yn y ffordd y maen nhw wedi eu hysgrifennu o safbwynt sicrhau bod y sefydliad yn deall yr hyn y dylen nhw ei gyflawni, maen nhw’n aneglur i’r cyhoedd ac yn debyg iawn o arwain at fylchau yn y ddarpariaeth Gymraeg.</p> <p>Rydyn ni’n croesawu’r ffaith bod y safonau yn cael eu llunio mewn modd sy’n caniatáu ac yn rhoi hwb i sefydliadau weithredu’n uniaith Gymraeg.</p> <p>Mae nifer o opsiynau i ddatrys y broblem nad yw’r safonau yn eglur i’r cyhoedd, gan gynnwys:</p> <p>(i) cynnwys safonau ehangach cyffredinol sy’n ddealladwy i’r cyhoedd ar ffurf agosach at ddrafftiau Comisiynydd y Gymraeg o’r safonau</p> <p>(ii) Ychwanegu safonau cyffredinol yn ogystal â’r rhai mwy manwl a defnyddio’r rhain mewn ymgyrch farchnata ac wrth esbonio’r safonau i’r cyhoedd;</p> <p>(iii) Cynnwys teitl, megis “yr hawl i ohebiaeth/i gyfathrebu yn Gymraeg”, a fyddai’n crynhoi bwriad y safonau er mwyn rhoi eglurder i’r cyhoedd ynghylch eu bwriad;</p> <p>(iv) Cwtogi ar nifer y safonau i gael safonau mwy cyffredinol, ehangach a haws eu deall;</p> <p>(v) Cwtogi ar nifer y “safonau cyflenwi gwasanaethau” yn unig fel eu bod nhw’n fwy cyffredinol a dealladwy i’r cyhoedd;</p> <p>(vi) Ychwanegu safon sy’n gorfodi’r Llywodraeth i ddatgan hawliau cyffredinol sylfaenol cenedlaethol y mae’n rhaid i bob corff a chwmni sy’n daronestyngedig i’r safonau eu sicrhau, megis:</p> <p style="padding-left: 40px;">“(a) yr hawl i gyfathrebu’n Gymraeg - mewn cyfarfod wyneb yn wyneb, yn electroneg, yn ysgrifenedig, dros y ffôn neu unrhyw ddull arall.</p> <p style="padding-left: 40px;">(b) yr hawl i weithio’n Gymraeg - gan gynnwys yr hawl i</p>

	<p>ddysgu Cymraeg yn y gweithle ...  (c) yr hawl i chwarae yn Gymraeg ...  (ch) yr hawl i wybodaeth yn Gymraeg ... ”</p> <p>(vi) Ychwanegu safon sy'n gorfodi'r sefydliadau i ddatgan hawliau clir, syml, dealladwy, cyffredinol sylfaenol cenedlaethol y mae'n rhaid iddyn nhw hysbysebu eu bod yn cadw atynt megis y rhai a restrir uchod;</p> <p>(vii) gosod safon ar Lywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn rhedeg ymgyrch farchnata genedlaethol er mwyn esbonio'r safonau a'u harwyddocad i'r cyhoedd</p> <p>O ran safon 8 - pam ei gyfyngu i ymateb i ohebiaeth yn unig? Ymhellach, credwn fod y geiriad braidd yn negyddol. A fyddai'n well llunio rhywbeth mwy cyffredinol megis peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran amser cyhoeddi ac yn y blaen?</p>
<p>Safonau Galwadau Ffôn (9-25)</p>	<p>Cwbl aneglur nid yn unig i'r cyhoedd o ran beth y gallan nhw ei ddisgwyl fel gwasanaeth ond i'r sefydliad hefyd o ran beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt. Dylid ceisio cyfuno nifer o'r safonau fel bod un safon yn egluro beth y gall rhywun ei ddisgwyl.</p> <p>Awgrymw'n fod modd creu un safon egwyddorol syml, megis “y dylai person allu derbyn gwasanaeth Cymraeg nad yw'n llai ffafriol na'r gwasanaeth cyfrwng Saesneg dros y ffôn” o dan y teitl “Yr Hawl i dderbyn gwasanaeth dros y ffôn yn Gymraeg”.</p> <p>Mae angen safon sydd ar lefel uwch lle mae pob aelod o staff yn gallu delio â galwad ffôn yn Gymraeg sef:</p> <p style="text-align: center;"><i>“Rhaid i bob aelod o staff allu delio yn Gymraeg â galwadau ffôn”</i></p> <p>Bydd hyn yn diogelu polisi iaith cyrff megis Cyngor Gwynedd yn ystod proses ail-strwythuro cynghorau, ac yn rhywbeth y bydd gofyn i sefydliadau eraill anelu ato.</p> <p>Ar gyfer sefydliadau nad ydyn nhw'n cyrraedd y safon uchod eto, bydd angen safon fel a ganlyn:</p> <p style="text-align: center;"><i>“Rhaid i bob adran allu delio yn Gymraeg â galwadau ffôn”</i></p> <p>Ni ddylid caniatáu canolfan alwadau na switsfyrddau nad ydyn nhw'n gallu ymdrin yn gyfan gwbl â galwadau ffôn yn Gymraeg. Felly mae angen dileu'r safonau sy'n is na rhif 9.</p> <p>Mae safonau rhif 12, 14, 20 yn gwbl annerbyniol gan eu bod yn golygu mai “creu cynllun” yw'r ddyletswydd ar gyrff, yn hytrach na dyletswyddau penodol i gynnig gwasanaeth ffôn derbyniol yn Gymraeg. Does dim sôn sut bydd sicrhau bod y ‘cynllun’ yn dderbyniol - a fydd gofyn i'r Comisiynydd gymeradwyo pob un? Heb ryw fath o drefn cymeradwyo byddai'n golygu y gall gyrff gydymffurfio â'r safon yma drwy baratoi cynllun gwan na fydd yn newid dim.</p>

	<p>Ymhellach, credwn fod modd symleiddio'r safonau hyn fel eu bod yn fwy eglur i'r cyhoedd ac i sefydliadau. Bydd unrhyw safonau sy'n ymwneud â "delio â" galwadau ffôn yn cynnwys cyfeirio galwadau at aelodau eraill o staff wrth reswm. Ni fyddai angen safonau 14 ac 15 felly.</p>
<p>Cyfarfodydd personol (26 - 29)</p>	<p>Mae safon 27 a 28 yn dweud "Pan fo person <i>wedi nodi ei fod</i> yn dymuno cael cyfarfod personol yn Gymraeg". Does dim angen y geiriau "wedi nodi ei fod" - ni ddylai fod cyfrifoldeb ar unigolion i optio i mewn i wasanaeth Cymraeg, dylai fod yr opsiwn yn cael ei gynnig gan y sefydliad yn ddiodyfyn ac yn rhagweithiol.</p> <p>Tybiwn fod bwriad gan y Llywodraeth i wneud safon 27 yn gymwys i rai sefydliadau sy'n gallu darparu gwasanaeth Cymraeg ar lefel uwch, a safon 28 i sefydliadau eraill. Mae safon 28 yn rhagdybio na fydd byth modd cynnal cyfarfod drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sefydliadau hyn. Dim ond pan nad oes modd cynnal cyfarfod yn Gymraeg y dylid cwmpo'n ôl ar opsiwn eilradd cyfieithu ar y pryd. Mae'n bwysig felly bod safon 28, yn ogystal â chadw safon 27, yn dweud rhywbeth megis:</p> <p style="text-align: center;"><i>"Pan fo rhywun yn dymuno cael cyfarfod personol yn Gymraeg, rhaid i'r sefydliad drefnu cynnal y cyfarfod hwnnw yn Gymraeg lle bo hynny'n bosibl, neu drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Saesneg i'r Gymraeg ac o'r Gymraeg i'r Saesneg."</i></p> <p>Dylai pob corff, fan lleiaf, allu cydymffurfio â safon 28 fel y'i geirir uchod, yn ogystal â gweithio tuag at safon 28 dros amser.</p> <p>Yn ogystal mae angen geiriad yn y safonau hyn sy'n gwahardd triniaeth sy'n gwahaniaethu yn erbyn defnydd o'r Gymraeg megis gorfod aros yn hirach am gyfarfod neu deithio'n bellach ac yn y blaen.</p> <p>Mae angen dileu safon 29 gan nad oes sefydliad cyhoeddus na allai drefnu offer cyfieithu ar y pryd. Mae aelodau'r Gymdeithas wedi cwrdd â bron pob awdurdod lleol yn y wlad, ac mae hyd yn oed y rhai gyda'r cynlluniau iaith gwannaf wedi darparu offer cyfieithu ar y pryd.</p> <p>Yn lle safon 26, dylid gorfodi'r sefydliad, naill ai yn yr adran yma o safonau neu rywle arall, i ddatgan bod gan unigolyn "yr hawl i gyfarfodydd personol yn Gymraeg".</p>
<p>Safonau cyfarfodydd cyhoeddus a digwyddiadau cyhoeddus (rhifau 30 - 40)</p>	<p>Mae angen hawl fwy cyffredinol megis bod gan bob person yr hawl i gyfrannu, clywed a defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus</p> <p>Yn sicr, mae gwir angen edrych ar gyfuno safonau fel bod modd creu hawl glir ym meddwl y cyhoedd sef "yr hawl i gyfarfodydd cyhoeddus Cymraeg".</p> <p>O ran safon 31, rydym yn deall pam ei bod wedi ei geirio fel y mae, ond credwn fod gosod 'dymuno defnyddio Cymraeg' fel unig ddewis i optio mewn iddo yn mynd i arwain llawer o bobl i beidio â gwneud y dewis, er y bydden nhw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg. Teimlwn y dylai'r cwestiwn ofyn "pa iaith fyddwch chi'n dymuno ei defnyddio yn ystod y cyfarfod" yn lle hynny, gan roi tri dewis, "Cymraeg", "Saesneg" neu "y ddwy iaith".</p> <p>Mae angen ailystyried safon 33. Mae'n rhoi'r baich ar bobl i 'nodi eu bod yn</p>

	<p>dymuno defnyddio'r Gymraeg', sy'n annerbyniol. Fel mae wedi'i geirio ar hyn o bryd mae hefyd yn golygu y byddai rhaid darparu cyfieithydd ar y pryd hyd yn oed ar gyfer cyfarfod uniaith Gymraeg. Yn lle safon 33 felly, awgrymwn y safon ganlynol:</p> <p>“rhaid darparu cyfieithu ar y pryd ymhob cyfarfod, oni bai:  (a) bod y sefydliad yn gwybod bod pawb sy'n mynd i'r cyfarfod yn deall Cymraeg, neu  (b) bod pawb sy'n mynd i'r cyfarfod wedi nodi mai Saesneg y byddant yn dymuno ei siarad yn y cyfarfod”</p> <p>Mae safonau 39 a 40 yn mynd yn agosach at y math o safonau cliriach mwy cyffredinol ac eglur i'r cyhoedd sydd eu hangen ym mhob categori. Dylid ceisio mynd yn bellach yn y cyfeiriad hwnnw wrth ail-ddrafftio'r safonau</p> <p>Wedi dweud hynny, mae sawl bwlch yn y safonau hyn. Mae'r safonau yn datgan <i>“Mae'r safonau hyn yn berthnasol i ddigwyddiadau sy'n cael eu trefnu a'u hariannu'n gyfan gwbl gan y sefydliad y mae'r safonau hyn yn gymwys iddo”</i>. Nid yw hyn yn dderbyniol gan eu bod yn gadael i gyrff sy'n gweithio mewn partneriaeth, lle mae'r rhan fwyaf ohonynt neu pob un ohonynt, sy'n trefnu/noddi'r digwyddiad yn darostyngedig i safonau, osgoi cydymffurfio â hwy. Dylai unrhyw ddigwyddiad sy'n derbyn arian cyhoeddus mewn unrhyw ffordd orfod cydymffurfio â'r safonau hyn fel bod defnydd y Gymraeg yn cael ei ymestyn i sefyllfaeodd newydd</p>
<p>Safonau Cyhoeddusrwydd (41 - 42)</p>	<p>Dylid cyfuno safon 41 a 42 - unig ganlyniad eu cadw nhw ar wahan yw gwneud y safonau yn llai dealladwy i'r cyhoedd ac i gyrff.</p>
<p>Safonau Cyhoeddiadau (43 - 45)</p>	<p>Nid yw'r rhestr o dan 43 na'r amodau o dan 44 yn cynnwys pob math o ddogfen gyhoeddus, gan gynnwys rhai pwysig megis dogfennau ymgynghori, deddfau a rheoliadau.</p> <p>Mae'r safonau hyn yn gam yn ôl ar Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, sy'n dweud bod rhaid cyhoeddi <u>unrhyw ddeunydd</u> a anelir at y cyhoedd yn ddwyieithog.</p> <p>Mae'r safonau hyn felly yn tanseilio'r hyn mae cyrff i fod i'w gynnis o dan gynlluniau iaith. Hefyd nid yw'n cynnis unrhyw beth a fyddai'n sicrhau bod cyrff yn symud at bolisi o weinyddu'n Gymraeg yn unig. Dylai safon 43 ddarllen fel a ganlyn felly:</p> <p style="text-align: center;"><i>“Rhaid i bob cyhoeddiad sy'n cael ei gynhyrchu gan y sefydliad fod yn Gymraeg.”</i></p> <p>Dylid dileu safon 44. Mae'r safon hon yn un sy'n gwbl groes i'r cynnydd a newid diwylliant a gychwynnwyd o dan gynlluniau iaith i wneud y Gymraeg yn norm. Mae'r meini prawf yn ddilornus tuag at siaradwyr yr iaith ac yn groes i statws swyddogol yr iaith, yr holl gysyniad o hawliau iaith, a phrif nod Comisiynydd y Gymraeg.</p> <p>Rydym yn cytuno â'r Prif Weinidog a ddywedodd mewn llythyr atom:</p>

	<p><i>“Rwyf hefyd yn cytuno y dylai'r safonau sy'n cael eu gosod ar gyrff cyhoeddus, fel isafswm, sicrhau bod y lefel o wasanaethau Cymraeg sy'n cael eu cynnig gan gyrff ar hyn o bryd yn parhau.”</i></p> <p>Mae'r safonau hyn - 43 a 44 - yn gwbl groes i'r ymrwymiad uchod gan y Prif Weinidog.</p> <p>Nid yw safon 45 yn sôn am beidio â thrin y cyhoeddiad Cymraeg yn llai ffafriol na'r un Saesneg o ran amser cyhoeddi; byddai hynny yn gam yn ôl o gynlluniau iaith oedd, o'r cychwyn cyntaf, yn atal cyhoeddi cyhoeddiad Cymraeg yn hwyrach na chyhoeddiad Saesneg. Mae hyn eto'n groes felly i ymrwymiad y Prif Weinidog yn ei lythyr atom.</p>
<p>Safonau ffurflenni (46 - 49)</p>	<p>Eto, mae'r safonau hyn yn gwbl groes i ymrwymiad y Prif Weinidog, yn groes i statws swyddogol y Gymraeg, prif nod y Comisiynydd ac egwyddorion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ni ddylai'r safonau gynnig llai na'r cynlluniau iaith presennol.</p> <p>Dylid cyfuno'r safonau ffurflenni gyda'r safon a awgrymwyd gennym uchod ar gyfer cyhoeddiadau. Os ydy'r Llywodraeth am gadw ffurflenni a chyhoeddiadau ar wahan fel math o safonau, dylid dileu safon 47, ac, yn lle safon 46, dylid mewnosod safon fel y ganlyn:</p> <p><i>“Rhaid i unrhyw ffurflen a gyhoeddir fod yn Gymraeg.”</i></p> <p>Unwaith eto, nid yw safon 48 yn sôn am beidio â thrin ffurflen Gymraeg yn llai ffafriol na'r un Saesneg o ran amser cyhoeddi; byddai hynny yn gam yn ôl o gynlluniau iaith a oedd, o'r dechrau, yn atal cyhoeddi ffurflen Gymraeg yn hwyrach na ffurflen Saesneg. Mae hyn eto'n groes felly i ymrwymiad y Prif Weinidog yn ei lythyr atom.</p>
<p>Safonau gwefannau a gwasanaethau ar-lein (50 - 52)</p>	<p>Cytunwn â safon 50, er ei bod yn hollbwysig ychwanegu 'amser cyhoeddi' fel ffactor lle na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>Dylid dileu safon 51 - mae'n tanseilio ysbryd y Mesur. Dylai holl dudalennau gwe y sefydliadau hyn fod yn ddwyieithog.</p> <p>Rydym yn croesawu bodolaeth safon 52. Credwn y dylai pob corff orfod cydymffurfio â hyn a bod angen ymestyn yr un egwyddor i bob math o wasanaeth digidol. Dylai pob rhyngwyneb, er enghraifft, gael ei ddarparu yn Gymraeg.</p> <p>Rydym hefyd yn credu y dylai holl wasanaethau talu ar-lein, a ddarperir gan nifer o gyrff yn barod, gael eu darparu yn Gymraeg. Nid yw'r safonau hyn yn llwyddo i sicrhau hynny. Nodwn fod rhai cyrff yn defnyddio gwasanaethau trydydd parti i ddarparu gwasanaethau talu bilau ar-lein ac yn y blaen, felly credwn y dylai fod eglurhad yn y safonau neu safon ychwanegol ynghylch hynny.</p> <p>Credwn fod angen ychwanegu safon(au) sy'n sicrhau bod yr opsiwn Cymraeg yn cael ei gynnig yn rhagweithiol. Mae gwefannau rhai cynghorau a chyrrff cyhoeddus, yn mynd yn ddi-ofyn at y wefan Saesneg ac wedyn ond yn cynnig botwm gyda'r dewis 'Cymraeg' mewn testun bach yng nghornel y wefan. Mae angen safon sy'n sicrhau nad yw rhywun yn mynd yn ddi-ofyn at</p>



	<p>y cynnwys Saesneg.</p> <p>Argymhellwn felly y dylai fod safon ychwanegol sy'n sicrhau bod gwefannau a gwasanaethau yn cynnig y cynnwys Cymraeg yn rhagweithiol:</p> <p><i>“Rhaid peidio â thrin cynnwys Cymraeg gwefannau a gwasanaethau ar-lein yn llai ffafriol na'r cynnwys Saesneg, o ran ffont, fformat, lliw, maint, eglurder, hygyrchedd, amser cyhoeddi nac amlygrwydd.”</i></p>
Safonau arwyddion (53 - 57)	Croesawn y safonau hyn yn gyffredinol.
Safonau derbynfeydd (58 - 62)	<p>Mae'n debyg mai opsiynau y gellid dewis rhyngddynt yw safonau 58 i 60 i fod - er nad oes eglurhad yn y ddogfen o hynny.</p> <p>Gan ragdybio mai dyna yw'r bwriad, nid yw'n dderbyniol bod safonau yn bodoli sy'n gorfodi rhywun i roi gwybod ymlaen llaw er mwyn derbyn gwasanaeth yn Gymraeg, neu orfod aros am wasanaeth Cymraeg. Mae safonau 60, 61 a 62 yn hollol annerbyniol ac yn mynd yn groes i'r egwyddor gyffredinol yn y Mesur sef na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac wrth wneud hynny'n cadarnhau mewn statud wahaniaethu yn erbyn siaradwyr Cymraeg.</p> <p>Mae nifer o gynghorau, megis Cyngor Torfaen, ac eraill wedi, neu'n dechrau, gwneud y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer staff rheng flaen. Nid oes rheswm felly pam na ddylid sicrhau bod pob derbynfa sydd gan gynghorau sir, parciau cenedlaethol a Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio â safon 58.</p>
Safonau Hysbysiadau Swyddogol (63 - 65)	<p>Nid yw'n glir pam mae'r safonau hyn ar wahân i'r rhai ar gyfer cyhoeddiadau - yr unig reswm posibl yw'r ffaith nad yw'r Llywodraeth yn bwriadu sicrhau bod holl gyhoeddiadau cyrff yn cael eu darparu'n Gymraeg, ond gan fod llai o hysbysiadau swyddogol mae'n iawn iddynt fod i gyd yn Gymraeg.</p> <p>Dylid gwneud y safonau hyn felly yn gymwys i holl gyhoeddiadau cyrff, gan y byddai'n symlach i'r cyhoedd eu deall yn hytrach na'r safonau presennol sydd wedi cael eu llunio er hwylustod sefydliadau.</p> <p>Nid ydym yn hollol argyhoeddedig bod y casgliad cyfreithiol yn y nodyn esboniadol yn gywir - nid oes cyfyngiad ar statws swyddogol y Gymraeg na'r egwyddor y dylid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg sy'n atal yr egwyddorion rhag bod yn berthnasol i ffurf ragnodedig o hysbysiad. Deallwn fod y pwerau yn gyfyngedig i bwerau datganoledig yn unig ond nid yw hynny'n golygu nad yw hysbysebiadau rhagnodedig yn gorfod cydymffurfio ym mhob achos.</p>
Safonau Dyfarnu Grantiau (66 - 69)  Safonau Dyfarnu Contractau (70 - 73)	<p>Mae'r safonau hyn yn groes i'r addewid a wnaed gan y Prif Weinidog na fyddai safonau yn cynnig llai na chynlluniau iaith. Maent ymhellach yn groes i'r addewid ganlynol yn Strategaeth Iaith y Llywodraeth:</p> <p><i>"34. Gwneud safonau a fydd yn galluogi'r Comisiynydd i osod dyletswyddau ar gwmnïau'r sector preifat sy'n rhan o gwmpas Mesur y Gymraeg, gan gynnwys cwmnïau telathrebu, gweithredwyr bysiau a threnau, a chwmnïau cyfleustodau – a sicrhau bod amodau priodol o ran y defnydd o'r</i></p>

	<p><b><i>Gymraeg yn cael eu cynnwys wrth i grantiau a chontractau gael eu dyfarnu i gwmnïau'r sector preifat gan gyrff cyhoeddus."</i></b></p> <p>Mae bylchau mawr yn y safonau hyn felly, sy'n gwbl groes i'r addewid uchod sy'n addo amod o ran defnydd o'r Gymraeg mewn cytundebau grant a chontractau.</p> <p>Mae'n haelodau yn ymwybodol o nifer o enghreifftiau lle mae cyrff sy'n derbyn grantiau neu gytundebau sylweddol yn gweithredu'n uniaith Saesneg - mae'r broblem yn ymestyn o feysydd parcio i byllau nofio.</p> <p>Yn wir, mae'n anodd gorbwysleisio pwysigrwydd y diffyg hwn, gan fod tua traean o wariant cyhoeddus yn digwydd drwy contractio allan.</p> <p>Mae'n rhaid i'r Llywodraeth felly ychwanegu safonau yn yr adrannau hyn a fydd yn cadw ei haddewid ac yn sicrhau cysondeb o ran darpariaeth Gymraeg mewn gwasanaethau boed nhw'n rhai sydd wedi eu contractio allan neu beidio.</p>
<p>Safonau Codi Ymwybyddiaeth (74 - 77)</p>	<p>Mae'r safonau hyn yn peri penbleth i ni, ac rydym yn meddwl y byddan nhw'n peri penbleth i'r cyhoedd hefyd. Yr hyn sy'n bwysig yw bod pawb yn ymwybodol o'u hawliau - a bod yr hawliau hynny yn glir, yn gryno ac yn hygyrch.</p> <p>Rydym yn cytuno gyda phwrpas safon 74-76, sef gwneud yn glir beth fydd ar gael yn Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw cyhoeddi rhestr y safonau yn mynd i sicrhau bod pobl yn gwybod mewn gwirionedd beth y gallant ei ddisgwyl gan y sefydliad - gan fod y safonau yn rhestr hir a chymhleth o oblygiadau cyfreithiol penodol iawn.</p> <p>Mae safon 77 yn rhyfedd iawn - ydy sefydliadau wir yn mynd i holi pobl a hoffent gael eu cyfarch yn Gymraeg? Oni fyddai'n haws iddynt gyfarch pawb yn Gymraeg? Hefyd, onid oes rhaid ceisio canfod dewis iaith wrth i bobl ddefnyddio gwefan neu wasanaeth arlein neu gyfryngau cymdeithasol hefyd? Oni fyddai hynny'n haws? Nid yw'n eglur beth yw diben safon 77 o ystyried bod safonau 84 ac 85 yn ymwneud â chanfod dewis iaith a'i gofnodi.</p>
<p>Safon hunaniaeth gorfforaethol (78)</p>	<p>Rydym yn cytuno â'r safon hon.</p>
<p>Safon cyrsiau (79 - 81)</p>	<p>Rydym yn croesawu bodolaeth safonau 79 ac 80, sy'n cydnabod yr angen i ymestyn defnydd o'r Gymraeg i rannau eraill. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn bod angen safon 81. Nid ddylai'r un awdurdod lleol yng Nghymru fod yn cynnig cyrsiau i bobl o dan 18 heb wneud hynny yn Gymraeg.</p> <p>Mater o hawl i bob un o ddinasyddion Cymru yw cyrsiau hyfforddiant a hamdden fel gwersi nofio yn Gymraeg, nid mater o hap a damwain daearyddol.</p> <p>Ymhellach, dylai'r safonau fynd yn bellach na 'chynnig' cwrs neu hyfforddiant yn unig yn Gymraeg gan orfodi pobl i optio i mewn. Dylid mewnosod y gair 'darparu' yn lle 'cynnig' yn y safonau hyn.</p>

	<p>Ymhellach, dylai fod safon sy'n sicrhau bod cyrff yn hysbysebu'n rhagweithiol y ffaith bod y cyrsiau hyn yn cael eu darparu, neu eu cynnig, yn Gymraeg.</p>
Safonau systemau annerch y cyhoedd (82-83)	<p>Rydym yn cytuno â'r safonau hyn. Er hynny, gellid ystyried cyfuno'r safonau hyn â rhai eraill er eglurder y cyhoedd a sefydliadau.</p>
Safonau cronfeydd ddata (84 - 85)	<p>Nid yw'n eglur pam mae angen y safonau hyn yn ogystal â safon 77. Mae'r rhain yn gliriach na safon 77.</p> <p>Nid yw'n eglur beth mae aelodaeth o'r gronfa yma yn ei olygu yn ymarferol - dim ond yn safon 2 y cyfeirir ati (a hynny mewn 'senario'). Byddai disgwyl bod safonau eraill yn cyfeirio at safonau 84 ac 85.</p>
Safonau llunio polisi (86 - 94)	<p>Dylid ymestyn y safonau hyn i'r holl benderfyniadau ariannol, cynllunio a deddfwriaethol.</p> <p>Dylai fod safon sy'n sicrhau bod sefydliadau yn gweithredu'n unol â'r asesiadau hyn er lles y Gymraeg, nid dim ond asesu heb wneud dim mwy. Fel arall, mae perygl na fydd y safonau hyn ond yn arwain at fwrocratiaeth ddiangen.</p> <p>Credwn, o ran ymarferoldeb gweithredu'r safonau, fod rhaid cael safon debyg i'r hyn oedd gan y Comisiynydd yn ei hail set (Safon 9), sef pennu swyddogaethau i uwch swyddog yn y sefydliad a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y safonau'n cael eu gweithredu, drwy baratoi canllawiau a chyfarwyddiadau i staff ac eraill, sicrhau bod isadeiledd yn ei le, ac arolygu ac adrodd ar gydymffurfiaeth. Yn y bôn, mae gofyniad cyfreithiol o'r fath yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant y gyfundrefn safonau.</p>
Safonau defnyddio'r Gymraeg mewn gweinyddiaeth fewnol (95 - 100)	<p>Rydym yn croesawu safonau sy'n sicrhau rhagor o ddogfennau cyflogaeth yn Gymraeg yn safonau 95 a 96, a dylai pob corff orfod eu darparu. Fodd bynnag, mae angen mynd yn llawer iawn pellach na hyn, gan nad oes safonau a fyddai'n sicrhau bod gweithwyr yn cael gwneud eu gwaith o ddydd i ddydd yn Gymraeg.</p> <p>Nodwn eto y gwendid sylfaenol yn safonau 97-100 gan iddynt roi'r baich ar y gweithiwr i optio mewn i wasanaeth Cymraeg gan ddweud "<i>Pan fo cyflogai neu weithiwr wedi nodi</i>" ei fod am gael gwasanaeth Cymraeg. Mae angen ail-ystyried y geiriad hwn. Un opsiwn i'w ystyried yw geiriad fel a ganlyn: "Wrth ddarparu gwasanaethau adnoddau dynol, dylai'r sefydliad gofnodi dewis iaith y gweithiwr".</p>
Safonau TGCh a deunyddiau cymorth (101 - 104)	<p>Nid ydym yn deall pam fod y safon hon eto yn ymwneud â 'pharatoi cynllun'. Pwy fydd yn cymeradwyo'r cynllun? A fydd cynllun gwael yn dderbyniol o dan y safon? Llawer mwy eglur i bawb fyddai safonau fel a ganlyn:</p> <p><i>"Rhaid i'r sefydliad ddarparu adnoddau gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg"</i></p> <p><i>"Rhaid i'r sefydliad ddarparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer"</i></p>

	<p style="text-align: center;"><i>meddalwedd lle bo rhyngwyneb yn bodoli.”</i></p> <p>Yn ychwanegol at y safonau uchod, dylid llunio safon a fydd yn sicrhau wrth gomisiynu neu brynu meddalwedd o'r newydd, bod sefydliad yn prynu meddalwedd sydd â rhyngwyneb Cymraeg os oes meddalwedd o'r fath ar gael.</p> <p>Ymhellach, dylid gosod safon sy'n sicrhau bod cyrff, wrth ddiweddarau neu osod meddalwedd newydd, yn gosod y meddalwedd fel bod gweithiwr yn gallu dewis rhyngwyneb neu fersiwn Cymraeg.</p>
<p>Safonau sgiliau (105-110)</p>	<p>Yn safon 105, dylid dileu'r geiriau 'lunio strategaeth yn amlinellu sut bydd y sefydliad yn' oherwydd nad oes pwynt i gannoedd o sefydliadau lunio strategaethau eraill - gan na fydd yn eglur beth y gallai gweithwyr ei ddisgwyl</p> <p>Byddai felly yn darllen fel hyn:</p> <p>[105] Rhaid i'r sefydliad:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• asesu sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogeion a'i weithwyr er mwyn cydymffurfio â safonau</li> <li>• asesu'r angen am sgiliau iaith...</li> </ul> <p>ac ati</p> <p>Ymhellach, mae safon cadw cofnod 127 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gadw cofnod o sgiliau iaith eu staff, felly nid oes rheswm i amodi'r angen i asesu sgiliau staff drwy ofyn iddynt lunio strategaeth.</p> <p>Yn hytrach na'r safon bresennol, dylai safon 106 ddarllen fel a ganlyn:  <i>“Rhaid i'r sefydliad ddarparu hyfforddiant iaith Gymraeg yn ystod oriau gwaith, oni bai bod pob aelod o staff yn rhugl eu Cymraeg.”</i></p> <p>Nid yw'n ddigonol cynnig cyfleoedd yn unig, ac mae'n rhaid symud oddi ar y syniad bod dysgu'r Gymraeg yn opsiynol yn hytrach mae angen iddo fod yn ddisgwyliad sylfaenol ar bob aelod o staff.</p> <p>Rydyn ni'n cytuno â safonau 108, 109 a 110.</p>
<p>Safonau recriwtio (111 -115)</p>	<p>Er mwyn cyflawni gweinyddiaeth fewnol yn Gymraeg mae angen safonau a fydd yn gwneud y Gymraeg yn sgil hanfodol i weithwyr y corff. Nid oes dim yn y safonau drafft hyn a fyddai'n sicrhau hynny, er bod nifer o gyrff eisoes â pholisi neu wedi datgan eu bod am symud at hynny.</p> <p>Mae'n rhaid i'r safonau hyn ddefnyddio'r cyfle i symud rhagor o gyrff at weinyddiaeth fewnol yn Gymraeg ond hefyd sicrhau cydymffurfiaeth â safonau ynglŷn â chyswllt â'r cyhoedd.</p> <p>Wrth wraidd nifer o broblemau ynghylch diffyg darpariaeth Gymraeg, mae polisi recriwtio gwan. Nid oes yr un ardal yng Nghymru lle nad oes cyflenwad digonol o siaradwyr Cymraeg o'r system addysg. Ar hyn o bryd, rydyn ni mewn cylch dieflig lle rydyn ni'n cynhyrchu cynifer o siaradwyr Cymraeg â phosib mewn ysgolion ond yn eu colli oherwydd polisiau recriwtio. Dylid edrych ar hyn fel modd o sicrhau polisi caffael dynol blaengar felly.</p> <p>Mae nifer o sefydliadau eisoes yn gwneud eu holl swyddi gofal cwsmer yn</p>

	<p>rhai Cymraeg yn hanfodol.</p> <p>Dylai'r safonau hyn felly gael eu cynnwys yn y ddogfen:</p> <p>“Rhaid i'r sefydliad hysbysebu pob swydd fel un lle mae'r Gymraeg yn hanfodol.”</p> <p>“Rhaid i'r sefydliad hysbysebu pob swydd gofal cwsmer fel un lle mae'r Gymraeg yn hanfodol.”</p> <p>Mae rhai cynghorau eisoes yn dilyn un o'r ddau bolisi uchod, gan gynnwys Gwynedd, Torfaen a Blaenau Gwent, felly pam na ellid eu cynnwys yn y safonau?</p> <p>Un safon ychwanegol arall y gellid ei hystyried yw safon sy'n gwneud bod â chymhwyster TGAU Cymraeg yn hanfodol ar gyfer pob swydd. Gellid edrych ar lunio safonau yn seiliedig ar sut mae Heddlu Gogledd Cymru wedi gwneud sgiliau Cymraeg syflaenol - gyda chefnogaeth a hyfforddiant - yn amod recriwtio hanfodol i'w holl staff newydd ac ar gyfer dyrchafiadau.</p> <p>Ymhellach, ar gyfer cyrff nad ydynt yn gweinyddu'n fewnol yn gyfan gwbl drwy'r Gymraeg ar hyn o bryd, dylid ystyried ychwanegu safon yn ymwneud ag adnabod adrannau lle mae'r sefydliad yn bwriadu symud tuag at weinyddiaeth fewnol Gymraeg, lle mae pob swydd yn rhai Cymraeg yn hanfodol, a chefnogi y symudiad hwnnw drwy'r safonau. Nodwn fod Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru yn gefnogol i symud at weinyddiaeth fewnol fesul adran o fewn y gwasanaeth sifil. Credwn y dylai'r safonau gynnig ffordd iddo wireddu ei ddymuniaid.</p> <p>Credwn ymhellach y dylid edrych sut mae'r safonau hyn yn galluogi cyrff i bontio rhwng addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardaloedd a'r byd gwaith.</p> <p>Fel arall, rydyn ni'n cytuno â'r safonau eraill.</p>
<p>Safonau arwyddion a sain mewnol (116 - 120)</p>	<p>Rydyn ni'n cytuno â'r safonau hyn.</p>
<p>Safonau Hybu (121 - 125)</p>	<p>Credwn fod y safonau hyn yn wan iawn i'r graddau eu bod, mewn gwirionedd, yn ddiystyr a dibwrpas. I raddau gellid dadlau eu bod yn niweidiol gan y bydd y sefydliadau yn gallu datgan eu bod yn cydymffurfio â safonau 'hybu'r Gymraeg' er nad ydyn nhw'n gwneud fawr ddim o gwbl.</p> <p>Fodd bynnag, yn safon 121, credwn y dylid gofyn i gyrff “asesu proffil demograffig a chymdeithasol y Gymraeg”</p> <p>Dylai'r strategaethau yn y safonau hyn orfod cael eu cymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg.</p> <p>Credwn y gellid ail-ymweld â safon hybu 3 yn ail fersiwn Comisiynydd y Gymraeg y safonau er mwyn sicrhau bod cyrff yn cadw at y safonau wrth weithredu mewn partneriaeth gydag eraill, yn enwedig y sector breifat ac wrth gychwyn mentrau newydd mewn partneriaeth.</p>

	<p>Dylai fod safonau sy'n gorfodi cyrff i ddefnyddio rhwydweithiau cyfrwng Cymraeg y wasg Gymraeg a mudiadau Cymraeg wrth ymwneud â gwahanol weithgareddau.</p> <p>Hefyd, dylid ystyried cynnwys ychwanegu elfennau o safon hybu 1 yn yr ail fersiwn a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd.</p>
Safon Cadw Cofnodion	Rydyn ni'n cytuno â'r safonau hyn.

## Atodiad 1 - Llythyr at yr Ysgrifennydd Parhaol Derek Jones

Annwyl Derek Jones,

Diolch i chi am gyfarfod gyda ... finnau ar yr 11eg o Fehefin ac am eich llythyr dyddiedig y 5ed o Orffennaf yn trafod defnydd y Gymraeg yn fewnol yn Llywodraeth Cymru.

Fel y gwyddoch, cred y Gymdeithas ei bod yn hollbwysig i Lywodraeth Cymru weithredu'n fewnol yn Gymraeg, gan symud at y polisi hwnnw fesul adran dros amser, er mwyn sicrhau dyfodol cadarn a llewyrchus i'r Gymraeg. Credwn ymhellach fod Llywodraeth Cymru mewn safle i arwain y ffordd i ragor o gyrff cyhoeddus eraill ddilyn esiampl Cyngor Gwynedd drwy symud at y polisi. Fel y gwyddoch, mae'r polisi yn un o'r 6 maes polisi rydym wedi gofyn i'r Prif Weinidog ddatgan ei fwriad i weithredu arnynt erbyn 1af Chwefror.

Rydym wedi dadlau y dylid sicrhau bod rhagor o gyrff yn gweinyddu'n Gymraeg trwy gyfrwng y safonau iaith newydd, ond waeth beth yw cynnwys y safonau, gallech chi arwain y ffordd gan fabwysiadu cynllun gweithredu sy'n golygu bod rhagor o adrannau a swyddfeydd y Llywodraeth yn gweithio'n fewnol yn Gymraeg.

**Hoffwn ddiolch i chi am gadarnhau yn y cyfarfod eich bod yn fodlon symud at sefyllfa lle bydd mwy o adrannau yn gweithredu'n Gymraeg.** Ond eto does dim sôn am hynny yn eich cynllun gweithredu a atodwyd yn eich llythyr atom. A wnewch chi felly gyhoeddi cynllun gweithredu newydd yn amlinellu'r camau y bwriadwch eu cymryd dros y blynyddoedd nesaf sy'n ymgorffori'r amcan hwnnw?

Rydym ar ddeall bod prosiect o'r enw 'Gweithleoedd Dwyieithog' wedi dechrau ychydig o flynyddoedd yn ôl a nodwyd y bwriad i wneud newidiadau er mwyn troi swyddfeydd y Llywodraeth yn Aberystwyth a Llandudno fel eu bod yn gweinyddu'n fewnol yn Gymraeg. A fedrwch roi diweddariad i ni ar yr hyn sy'n digwydd yn y maes hwn erbyn hyn? Hoffem wybod beth yw'ch bwriad o ran ailgydio yn y prosiect hwnnw a pha wersi a ddysgwyd ohono. Hoffem hefyd dderbyn copiâu o ddogfennau'r prosiect hwnnw.

Byddem yn falch os gallen ni dderbyn ymateb erbyn Ionawr 17eg i'r llythyr hwn.

Yn gywir,

Toni Schiavone,  
Cadeirydd Grŵp Cymunedau Cynaliadwy  
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

cc: Iwan Evans, Bethan Webb, Caroline Turner